**Pwyllgor Busnes** **BC254-00(Terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Mawrth 12 Medi 2000
**Amser:** 10.45am
**Lle:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Presennol:** Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Jocelyn Davies fel Trefnydd Busnes newydd grŵp Plaid Cymru. Er hynny, nes y byddai'n cael ei hethol yn ffurfiol mewn cyfarfod llawn, byddai'n bresennol yn lle Ieuan Wyn Jones o dan Reol Sefydlog 13.3.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

2.1 Cytunwyd ar BC236-00 a BC238-00 y tu allan i'r Pwyllgor ac yr oeddent wedi cael eu cyhoeddi.

## 3. Materion yn codi (BC236-00)

3.1 **Paragraff 3.1** – Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes am eu sylwadau ynghylch symud y Pwyllgor Busnes i 8.30am a'r Pwyllgor Deddfau i 9.00am. Byddai cyfarfodydd grwpiau'r pleidiau yn dilyn am 10.00am. Dywedodd Jenny Randerson a'r Trefnydd eu bod yn cytuno â'r cynnig; yr oedd Jocelyn Davies yn cytuno ag ef o'i hanfodd. Er hynny, yr oedd grŵp William Graham yn dal i'w wrthwynebu, gan y byddai'n well ganddynt gadw'r cyfarfod grŵp am 8.30am a chynnal cynhadledd i'r wasg wedyn. Cytunodd William Graham i fynd â'r cynnig, sef y dylid mabwysiadu'r amserau newydd am gyfnod prawf o bedair wythnos, a hynny o'r wythnos yn cychwyn ar 9 Hydref, yn ôl i'w grŵp i'w ystyried ymhellach. Cytunodd i hysbysui'r Dirprwy Lywydd am farn ei grŵp erbyn dydd Iau 14 Medi. **Gweithredu: William Graham i ymgynghori â'i grŵp ac adrodd yn ôl**

## 4. Materion a gyfeiriwyd o gyfarfodydd llawn

4.1 Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion o gyfarfodydd llawn.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad am Weithdrefnau

5.1 Cafodd papur BC244-00 am bosibiliadau o ran newid ffurf cwestiynau llafar i'r Prif Ysgrifennydd ei ohirio tan y cyfarfod ar 13 Medi.

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC241-00 am hyd cyfraniadau yn ystod y sesiwn holi. Yr oedd y papur yn darparu dadansoddiad o nifer y geiriau a ddefnyddiwyd mewn cwestiynau i Ysgrifenyddion Cynulliad ar 28 Mehefin a 5 Gorffennaf 2000 ac yn ein hatgoffa o'r canllawiau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad ac a gafodd eu hadolygu a'u cyhoeddi ym mis Ionawr 2000. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y Llywydd yn dal i roi pwys mawr ar y canllawiau a gyhoeddwyd ac na ddylai'r Aelodau fanteisio ar y sesiwn holi i wneud areithiau. I'r perwyl hwn, yr oedd stopglociau wedi'u gosod a byddent yn cael eu defnyddio i gyfyngu pob cwestiwn i 3 munud. Dywedodd William Graham y dylid tynnu sylw Ysgrifenyddion y Cynulliad at y mater hwn gan ei fod yn teimlo mai hwy oedd yn tramgwyddo fwyaf. Er hynny, dywedodd y Trefnydd fod pob un o'r grwpiau yr un mor gyfrifol. Yn wir, tynnodd y Dirprwy Lywydd sylw at ypapur a oedd yn adroddiad ffeithiol o'r holl gyfraniadau. Nododd fod disgwyl i'r holl bleidiau fod yn fwy disgybledig.

5.2 Dywedodd Jocelyn Davies y byddai aelodau ar y meinciau cefn ar eu colled petai Ysgrifennydd Cynulliad yn rhoi ateb hir. Gofynnodd William Graham a fyddai modd i swyddogion gynnal ymarfer tebyg o ran cyfrif geiriau yn ystod y cyfnod prawf ar gyfer y stopglociau. Cytunwyd y byddai Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn paratoi papur tebyg ar gyfer y cyfnod prawf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

5.3 Yn ogystal, nodwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad o flwyddyn gyntaf y Cynulliad. Atgoffwyd y Pwyllgor gan Jenny Randerson ei fod wedi cytuno yn y gorffennol i gynorthwyo'r Llywydd i fod yn fwy llym wrth sicrhau bod yr Aelodau a'r Ysgrifenyddion Cynulliad yn glynu wrth y canllawiau y cytunwyd arnynt.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes ddarparu sylwadau am bapur BC226-00 am benderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd llawn a fyddai'n effeithio ar bwyllgorau. Yn y cyfarfod ar 11 Gorffennaf, yr oeddent wedi cytuno y dylai Aelodau roi gwybod i'r pwyllgor pwnc perthnasol yn gyntaf pan oeddent yn bwriadu cyflwyno cynigion neu welliannau a fyddai'n effeithio ar flaen-raglenni gwaith pwyllgorau pwnc petaent yn cael eu cario. Er hynny, gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes ystyried a ddylai Aelodau sy'n bwriadu cyflwyno cynigion neu welliannau sydd â goblygiadau o ran costau baratoi dadansoddiad o'r costau cysylltiedig.

6.2 Nododd Jenny Randerson y byddai'n anodd i'r Llyfrgell ddarparu dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr Aelodau o fewn cyn lleied o amser – 24 awr, yn ôl pob tebyg. Dywedodd Andrew Davies fod manylion am gostau, fel arfer, yn cael eu rhoi i'r Ysgrifenyddion Cynulliad gyda'r nodiadau briffio. Byddai'n ymgynghori â'r Cabinet i gael gwybod a fyddent yn barod i rannu'r wybodaeth hon â Chadeirydd y pwyllgor perthnasol a'r Aelod sy'n cyflwyno'r cynnig neu'n cynnig y gwelliant. **Gweithredu: Y Trefnydd i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf**

6.3 Gofynnodd William Graham a oedd angen rhoi sylw i'r adnoddau a oedd gan y Llyfrgell, o gofio'r pryderon a leisiwyd ynglŷn â'i gallu i ddarparu gwybodaeth yn gyflym. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai modd rhoi sylw i'r mater hwn eto gan fod iddo oblygiadau o safbwynt adnoddau Swyddfa'r Llywydd.

## **7. Busnes at y dyfodol**

7.1 Ystyriwyd y rhagolwg tri mis (BC242-00) gan y Pwyllgor. Nodwyd bod amser cyfarfodydd grwpiau yn ddibynnol ar gytundeb o du'r Pwyllgor i newid amser y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Deddfau. Cytunodd Marie Knox a Sherry Rees i anfon ymlaen at Marion Stapleton ddyddiadau a oedd wedi'u nodi'n anghywir.

7.2 O gofio pryderon y Trefnydd am gyfarfodydd ar brynhawn dydd Iau, dywedodd y Dirprwy Lywydd unwaith eto fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno na ddylid gwneud ceisiadau i'r Pwyllgor Busnes am gyfarfodydd ychwanegol ond o dan amgylchiadau eithriadol. Dylai ceisiadau am gyfarfodydd ar brynhawn dydd Iau gael eu cymeradwyo gan fwyafrif mewn pwyllgor a dylai ceisiadau am gyfarfodydd ar ddydd Gwener gael eu cymeradwyo gan bwyllgor cyfan.

7.3 Yn ogystal, gofynnodd y Trefnydd na ddylai dadleuon ar fore dydd Iau fod yn benagored a hynny er mwyn sicrhau bod modd i'r holl Aelodau fodloni unrhyw drefniadau a oedd eisoes wedi'u gwneud at y prynhawn. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddid yn cymryd yn ganiataol y byddai'r cyfarfod ar fore dydd Iau yn cychwyn am 9.05am ac yn dod i ben am 12.35pm. Cytunodd i holi'r Llywydd a fyddai modd pennu 1.30 pm yn derfyn amser absoliwt petai'r cyfarfod yn parhau ar ôl 12.35pm. Nid oedd yr aelodau'n sicr a fyddai angen cynnig trefniadol ar gyfer y cyfryw drefniant neu beidio. Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y terfyn amser absoliwt, ond, yn ogystal, yr oeddent am ystyried hyn o fewn eu grwpiau. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor y dylid cael seibiant pum munud yn ystod y cyfarfod llawn ar fore dydd Iau, pe bai modd gwneud hynny. Byddai swyddogion yn ystyried a fyddai angen newid y Rheolau Sefydlog er mwyn sefydlu mai 12.35pm fyddai'r terfyn amser arferol. **Gweithredu: Dirprwy Lywydd i siarad â'r Llywydd; Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ynglŷn â therfyn amser absoliwt a swyddogion i ystyried a oedd angen newid y Rheolau Sefydlog neu beidio**.

7.4 Yr oedd y Trefnydd yn bryderus am adroddiadau diweddar yn y wasg lle yr oedd Ieuan Wyn Jones wedi beirniadu'r angen am dair wythnos o wyliau ar

gyfer cynadleddau cenedlaethol y pleidiau.  Yr oedd yn teimlo bod ei sylwadau wedi ymbellhau grŵp Plaid Cymru oddi wrth y cytundeb a wnaed rhwng yr holl bleidiau yn y Pwyllgor Busnes.   Ategwydbarn y Trefnydd gan William Graham, a gchan Jenny Randerson, gan nodi ei bod hithau, yn wreiddiol, am i'r Cynulliad eistedd am bythefnos ym mis Medi ond ei bod wedi cytuno â barn Plaid Cymru, sef na ddylai eistedd ond am wythnos oherwydd yr effeithiau ar y staff.  Yr oedd yn teimlo bod Plaid Cymru wedi gwneud elw gwleidyddol dros dro a bod hynny wedi adlewyrchu'n wael ar y Cynulliad yn ei gyfanrwydd.  Nododd y Pwyllgor fod Tŷ'r Cyffredin yn cael mwy o wyliau na hyn ond nad oedd yn cael ei feirniadu yn y cyfryngau.

7.5  Cytunodd Jocelyn Davies i fynd â'r pwyntiau a wnaed at Ieuan Wyn Jones gan nad oedd hi wedi gweld yr adroddiadau yn y wasg.  Yr oedd hyn yn destun pryder i'r Dirprwy Lywydd gan fod y mater wedi cael ei ystyried yn ofalus dros nifer o wythnosau. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio y byddai pob plaid yn glynu wrth unrhyw gytundebau a wnaed yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Busnes yn y dyfodol oni bai fod unigolyn yn dod â'r mater yn ôl i'r Pwyllgor i'w drafod ymhellach.

7.6   Gofynnodd y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes gadarnhau'r cytundeb blaenorol ynghylch wythnosau etholaeth y Nadolig.  Dywedodd ei fod yn teimlo y dylent gael eu cyfyngu i dair wythnos ac y byddai angen i swyddogion fod yn fwy hyblyg er mwyn bodloni anghenion y Cynulliad.  Gofynnodd Jenny Randerson a fyddai modd i'r Cynulliad hefyd ystyried wythnosau etholaeth y Pasg a'r Haf.  Cytunwyd y dylai'r papurau am bosibiliadau ar gyfer wythnosau etholaeth, ynghyd â'r darnau perthnasol o gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor, gael eu hailddosbarthu i'w hystyried ymhellach gan y Pwyllgor. Yn ogystal, byddai gwybodaeth yn cael ei darparu am nifer yr wythnosau yr oedd y ddwy Senedd yn San Steffan a'r Alban yn eistedd yn ystod y flwyddyn.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

7.7  Amlinellodd y Trefnydd fanylion busnes y diwrnod, o gofio'r ddadl frys arfaethedig am danwydd.  Nodwyd ei bod yn bosibl na fyddai modd cwblhau'r ddadl ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ac y byddai'r Trefnydd yn ystyried pryd y byddai modd ei chwblhau.

7.8  Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC243-00) fel y'i newidiwyd ar lafar.

**<u>Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn ar 9, 16 a 23 Hydref</u>**

7.9  Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ynghylch ei ddatganiad arfaethedig am drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn ar 9, 16 a 23 Hydref oedd y dylai mynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft diwygiedig.

7.10  Gofynnwyd i Jocelyn Davies ddod ag eitem Ieuan Wyn Jones am y cynllun *Diwydiant a Chynulliad Cenedlaethol Cymru* i'r cyfarfod nesaf.

## 8. Is-ddeddfwriaeth

Byddai eitemau o is-ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried yn y cyfarfod a gynhelir ddydd Mercher 13 Medi.

## 9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC245-00 a oedd yn cynnwys rhestr o'r newidiadau nesaf i'r Rheolau Sefydlog. Nodwyd nad oedd yn debygol y byddai grŵp Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig i rwystro gwelliannau i gynigion i nodi adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd llawn. Yr oedd yr holl bleidiau eraill yn dal yn ymrwymedig i'r cynnig. Cytunwyd y byddai swyddogion yn mynd ati i baratoi adroddiad y Pwyllgor Busnes ond y byddai angen cynigion ar wahân mewn cyfarfodydd llawn ar gyfer newidiadau unigol i'r Rheolau Sefydlog. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr ac Ysgrifenyddiaeth y Cabinet**

9.2 Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried papur BC246-00 am gynigion i newid y Rheolau Sefydlog i sefydlu Pwyllgor Tŷ ffurfiol i roi cyngor i'r Cynulliad, y Llywydd a'r Clerc mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Llywydd. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y cynigion y tu allan i'r Pwyllgor er mwyn cyrraedd y nod o ran mynd â'r newidiadau yn eu blaen yn y cyfarfod llawn a gynhelir ddydd Mawrth 10 Hydref. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion ac i gyflwyno sylwadau i Ysgrifenyddiaeth y Siambr erbyn 27 Medi**

## 10. Dyfarniadau gan y Llywydd

10.1 Ni chafwyd dyfarniadau gan y Llywydd.

## 11. Unrhyw fater arall

11.1 Byddai materion eraill yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ddydd Mercher 13 Medi.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**